*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Yr Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **18 Mehefin 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur PSC (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown, Pennaeth Cyllid**<br>**01745 535282** |
| Pwnc | **Datganiad Polisi Disgresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad ar yr Awdurdod i lunio Datganiad Polisi Disgresiynau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

2 Ceisio cymeradwyaeth i'r penderfyniadau ym Mholisi Disgresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân a cheisio cymeradwyaeth, ar ran yr ATA, y bydd penderfyniadau'n cael eu dirprwyo o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Rhaid i'r Awdurdod Tân, dan reoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, wneud penderfyniadau am faterion yn ymwneud â gweinyddu'r Cynlluniau. Rhaid i'r Awdurdod adolygu, a phan fo angen, gyhoeddi polisi disgresiynau yn nodi a fydd disgresiwn yn cael ei ddefnyddio ai peidio.

**ARGYMHELLION**

4 Dyma ofyn i'r Aelodau gymeradwyo pob penderfyniad disgresiynol sydd yn Natganiad Polisi Disgresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ac i ddirprwyo penderfyniadau o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.

**CEFNDIR**

5 Ar hyn o bryd, mae pedwar cynllun pensiwn yn bodoli ar gyfer diffoddwyr tân, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 (FPS), Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân 2007 (NFPS), Cynllun Pensiwn Addasedig ar gyfer y system RDS (MPS) a Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015. Mae'r polisi hwn yn nodi rhai o'r disgresiynau sy'n berthnasol i'r cynlluniau ac yn ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i ffyrdd o ddelio â'r disgresiynau hyn.

**GWYBODAETH**

6 Yn dilyn dyfodiad cynllun pensiwn newydd yn 2015, mae'r disgresiynau cyfredol wedi cael eu hadolygu ac maent ar gael yn Atodiad 1, ynghyd â'r penderfyniad polisi priodol yn ôl argymhelliad yr Awdurdod Tân.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Polisi Disgresiynau yn cefnogi'r gwaith o gynnal gweithlu sefydlog er mwyn galluogi gwasanaeth tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'i integreiddio'n well fel y gall gwaith ataliol ac ymateb ei brys barhau i fod ar gael pan a ble mae ei angen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Gall rhai penderfyniadau effeithio ar y gyllideb o ran taliadau pensiwn uwch gan y cyflogwr a'r effaith ar brisiadau actiwaraidd yn y dyfodol. |
| Cyfreithiol | Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r gwaith o weinyddu Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn darparu ar gyfer nifer o bwerau disgresiwn ar ran yr Awdurdod Tân. |
| Staffio | Effaith bosibl ar lefelau staffio os yw rhai disgresiynau yn effeithio ar y broses y mae aelod yn mynd drwyddi wrth wneud penderfyniadau am ymddeol. Effaith bosibl ar dderbyn dyrchafiadau dros dro. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth |

**Polisi Disgresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân**

Math o ddogfen: Polisi

Rhif fersiwn: 2

Dyddiad adolygu: Mehefin 2018

**RHAN A**

Mae gorchmynion cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithiwr (i) cyhoeddi datganiad polisi ysgrifenedig ar y modd y bydd yn defnyddio'r gwahanol ddisgresiynau sy'n cael eu darparu gan y cynllun, (ii) ei gadw dan adolygiad (iii) ei ddiwygio fel y bo angen. Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau'r trefniadau sy'n bodoli i fodloni'r gofynion hyn.

Mae'r disgresiynau canlynol yn agored i'w newid, naill ai yn unol ag unrhyw newid yn y rheoliadau neu oherwydd ystyriaeth briodol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC). Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol.

**RHAN B**

| **Argymhellion**<br>**Rheoliadau a Disgresiynau Cynlluniau FPS (92), NFPS (2007) ac NFPS 2015** |
|---|
| **RHAN B(1 )– CYNLLUN NFPS 2015**<br><br>**Dirprwyo Cynllun NFPS 2015 (Rheoliad 5 (2))** |
| Rhaid i reolwr y cynllun sicrhau bod y pwerau dirprwyedig yn briodol ac yn gyfoes<br><br>**Argymhelliad**<br>Dan y Cynllun Dirprwyo, mae gan y Prif Swyddog Tân ddisgresiwn gan yr Awdurdod i gyflawni'r holl faterion sy'n ymwneud â gweinyddiaeth a rheolaeth weithredol y gwasanaeth a'i swyddogaethau o ddydd i ddydd. |
| **Cyflog pensiynadwy (Rheoliad 17). Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i benderfynu a yw taliadau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn cael eu trin fel cyflog pensiynadwy ai peidio. (Rheoliad 17 (1)(d).** |
| O'r blaen, roedd taliadau DPP yn cael eu trin fel rhai pensiynadwy ac yn cael eu cynnwys yn y dyfarniadau buddion fel Buddion Pensiwn Ychwanegol.<br><br>**Argymhelliad**<br>Yr argymhelliad yw mabwysiadu'r disgresiwn. Er lles tegwch a chysondeb, bydd taliadau DPP yn parhau i fod yn bensiynadwy. |

**Cyfraniadau yn ystod absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod diwydiannol neu absenoldeb â chaniatâd (Rheoliad111). Yn berthnasol i bob cynllun.**

Os yw aelod gweithredol yn absennol o gyflogaeth y cynllun oherwydd salwch neu anaf ac nad oes ganddo hawl i dderbyn cyflog pensiynadwy, neu oherwydd anghydfod diwydiannol neu absenoldeb di-dâl â chaniatâd, gall dalu cyfraniadau aelod; os yw'n gwneud hynny, gall rheolwr y cynllun ei gwneud yn ofynnol iddo/iddi dalu cyfraniadau'r cyflogwr hefyd. (Rheoliad 111(2), (3) and (4).

**Argymhelliad**
**Salwch ac anaf (Rheoliad 111(2)** – Bod ATAGC yn cytuno i ddirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, i ystyried pob achos yn unigol er mwyn penderfynu ai'r unigolyn ynteu'r cyflogwr fydd yn talu cyfraniadau'r cyflogwr.

**Anghydfod diwydiannol (Rheoliad 111(3)** – Bydd raid i'r aelodau dalu cyfraniadau'r cyflogwr yn unol â Rheoliad 117(3) ym mhob achos pryd mae aelod gweithredol yn prynu pensiwn yn ôl os oes anghydfod(au) diwydiannol (oni bai fod y Prif Swyddog Tân yn cytuno'n wahanol drwy eithriad).

**Absenoldeb di-dâl â chaniatâd (Rheoliad 111(4)** – Mae ATAGC yn cytuno i ddirprwyo'r awdurdod i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, i ystyried pob achos yn unigol er mwyn penderfynu ai'r unigolyn ynteu'r cyflogwr fydd yn talu cyfraniadau'r cyflogwr.

O ran pob achos pryd mae rheoliadau 111 paragraffau 2, 3 neu 4 yn berthnasol, rhaid talu'r cyfraniadau cyn pen 6 mis ar ôl i ATAGC ofyn am yr arian, ar y gyfradd cyflog sy'n berthnasol ar y pryd. Fel arfer, bydd ATAGC yn gwneud y cais am yr arian cyn pen 6 mis ar ôl i'r absenoldeb/anghydfod ddod i ben.

**Optio i mewn / allan (Rheoliad 12)**

**Optio i mewn i'r cynllun (Rheoliad 12).** Bydd y sawl sy'n optio i mewn yn dod yn aelod gweithredol o'r cynllun gan ddechrau yng nghyfnod y cyflog cyntaf yn dilyn y dyddiad pryd mae'r opsiwn yn cael ei ddefnyddio. Mae opsiwn i reolwr y cynllun amrywio'r dyddiad pryd mae'r person yn dod yn aelod gweithredol, i ryw adeg pryd mae rheolwr y cynllun yn ei ystyried yn briodol. [Rheoliad 12(5)]

**Argymhelliad**
Bydd y dyddiad optio i mewn yn cael effaith oddi ar ddechrau cyfnod y cyflog cyntaf yn dilyn y dyddiad pryd mae'r opsiwn yn cael ei ddefnyddio. (Er gwybodaeth – cyfnod y cyflog yw pythefnos ymlaen llaw a phythefnos ar ôl dyddiad y cyflog misol).

| |
|---|
| **Optio allan ar ôl y tri mis cyntaf (Rheoliad 16)** |
| Mae'r sawl sy'n optio allan yn rhoi'r gorau i fod mewn gwasanaeth pensiynadwy o ddyddiad cyntaf cyfnod y cyflog cyntaf yn dilyn y dyddiad pryd mae'r opsiwn yn cael ei ddefnyddio. Os yw rheolwr y cynllun yn ystyried bod y diwrnod hwnnw'n amhriodol, gall amrywio'r dyddiad i ddyddiad cyntaf unrhyw gyfnod cyflog diweddarach y mae rheolwyr y cynllun yn ei ystyried yn briodol. [Rheoliad 16(2)(b)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Y dyddiad optio allan fydd diwrnod cyntaf cyfnod y cyflog cyntaf yn dilyn y dyddiad pryd mae'r opsiwn yn cael ei ddefnyddio. |
| **Cau cyfrif aelod gohiriedig ar ôl bwlch yn y gwasanaeth pensiynadwy sydd heb fod yn fwy na phum mlynedd. (Rheoliad 49)** |
| Os yw aelod gohiriedig yn dod i mewn i gyflogaeth bensiynadwy eto ar ôl bwlch o bum mlynedd neu lai, rhaid i reolwr y cynllun gau cyfrif yr aelod gohiriedig ac ailsefydlu cyfrif yr aelod gweithredol, gan drosglwyddo cofnodion o'r cyfrif gohiriedig. Os oes gan y person fwy nag un cyfrif aelod gohiriedig perthnasol, rhaid iddo/iddi ddewis – cyn pen tri mis ar ôl dod i mewn i gyflogaeth y cynllun eto – pa un i'w ddewis. Os nad yw'n dewis, rhaid i reolwr y cynllun wneud y dewis ar ei ran. [Rheoliad 49(3) a (4)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| **Ymddeoliad sy'n cael ei ysgogi gan y cyflogwr (Rheoliad 62)** |
| Gall cyflogwr benderfynu bod aelod gweithredol sy'n 55 mlwydd oed neu hŷn ond o dan 60 mlwydd oed ac sy'n cael ei ddiswyddo ar sail effeithlonrwydd busnes neu'n cael terfynu ei gyflogaeth drwy gyd-gytundeb, yn gallu derbyn taliad pensiwn ymddeol ar unwaith heb ostyngiad taliad cynnar. Caiff cyflogwr ddefnyddio'r disgresiwn hwn dim ond yw'r cyflogwr yn penderfynu y byddai dyfarnu pensiwn ymddeol ar y sail yn hwn yn gymorth i reoli ei swyddogaethau yn ddarbodus, effeithiol ac effeithlon ar ôl ystyried y costau sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r achos penodol hwnnw. [Rheoliad 62(1) a (2)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Ni fydd ATAGC fel arfer yn talu buddion yn gynnar am resymau effeithlonrwydd busnes nac yn hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraidd, heblaw dan amgylchiadau eithriadol ar ôl ystyried yr achos busnes. Rhaid i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, roi caniatâd. |

| |
|---|
| **Arfer yr opsiwn ymddeoliad rhannol (Rheoliad 63) (h.y. ymddeoliad hyblyg)** |
| Caiff aelod gweithredol o gynllun 2015 sy'n 55 mlynedd oed o leiaf ac sydd â hawl i daliad pensiwn ar unwaith os yw'n gadael gwasanaeth pensiynadwy ac yn hawlio taliad pensiwn, hawlio ei holl bensiwn cronedig ond parhau mewn gwasanaeth pensiynadwy. Rhaid i'r person dan sylw roi rhybudd priodol i reolwr y cynllun a chymryd yr opsiwn ymddeoliad rhannol ar ddyddiad y cytunir arno rhwng yr aelod a rheolwr y cynllun. [Rheoliad 63(5)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| **Cychwyn pensiynau (Rheoliad 70)** |
| Os yw aelod gohiriedig yn gofyn, ac os oes ganddo hawl, i daliad pensiwn cynnar ar sail afiechyd, rhaid i reolwr y cynllun benderfynu ar ddyddiad y taliad fel y dyddiad pryd mae'r person wedi methu â chyflawni cyflogaeth arferol oherwydd ei fod yn fethedig yn feddyliol neu'n gorfforol, neu os na ellir gwirio pryd yw'r dyddiad hwnnw, fel dyddiad cais yr aelod am daliad cynnar. [Rheoliad 70(7)]<br><br>Os yw aelod gohiriedig yn gwneud cais am ohirio taliad pensiwn gohiriedig y tu hwnt i oedran pensiwn gohiriedig, neu'n gofyn am daliad cynnar gyda gostyngiad taliad cynnar cyn oedran pensiwn gohiriedig, bydd rheolwr y cynllun yn penderfynu ar ddyddiad y taliad ar ôl i'r hawliad am daliad gael ei wneud. [Rheoliad 70(8)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| **Dewis dyrannu (Rheoliad 72)** |
| Rhaid i reolwr y cynllun gydsynio i ddyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd nad yw'n ŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw ag aelod gweithredol neu ohiriedig. (Gellir cadw cydsyniad yn ôl os nad yw rheolwr y cynllun wedi'i fodloni bod y person a enwebir yn ddigon dibynnol ar yr aelod gweithredol). [Rheoliad 72(3)(b) a (4)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Bydd y Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, yn gwneud penderfyniad. Rhaid i'r person a enwebir fod yn ddigon dibynnol ar yr aelod. |

| |
|---|
| **Ystyr "partner sy'n goroesi" (Rheoliad 76)** |
| Gellir ystyried partner sy'n cyd-fyw yn "bartner sy'n goroesi" a gall, o bosibl, fod yn gymwys i gael pensiwn ar yr amod ei fod yn bodloni rhai amodau penodol, ac un ohonynt eu bod rhaid iddo fod mewn "perthynas tymor hir" – am gyfnod o ddwy flynedd barhaus o leiaf – ar y dyddiad pryd mae angen ystyried yr hawl. Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i ganiatáu i'r person fod yn gymwys os yw'r cyfnod yn llai na dwy flynedd. [Rheoliad 76(1)(b)(v) a (2)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Bydd y Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, yn defnyddio ei ddisgresiwn mewn achosion lle mae'r berthynas am lai na 2 flynedd. |
| **Person y mae cyfandaliad budd marwolaeth yn daladwy (Rheoliad 95)** |
| Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn absoliwt ynglŷn â phwy sy'n dderbyn unrhyw gyfandaliad budd marwolaeth sy'n daladwy. [Rheoliad 95]<br><br>**Argymhelliad**<br>Bydd Rheolwr y Cynllun yn defnyddio ei ddisgresiwn ynglŷn â phwy sy'n derbyn unrhyw gyfandaliad budd marwolaeth os nad yw'r mater yn ymddangos yn syml. |
| **Talu pensiynau o dan "Buddion Marwolaeth" Rhan 6 (Rheoliad 100)** |
| Os oes pensiwn plentyn yn ddyledus i blentyn cymwys dan 8 mlwydd oed, bydd rheolwr y cynllun yn penderfynu i bwy y dylid ei dalu a bydd yn rhoi cyfarwyddiadau i'r person hwnnw ynglŷn â sut y dylid defnyddio'r taliad er lles y plentyn cymwys. [Rheoliad 100(2)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| **Dyfarniadau dros dro mewn perthynas â phensiynau plentyn cymwys: addasiadau diweddarach (Rheoliad 102)** |
| Os oes pensiynau plant wedi eu gwneud i rai personau penodol ar y sail eu bod yn blant cymwys ac nad oedd unrhyw rai eraill, a'i bod yn ymddangos wedyn nad oedd rhai o'r plant hynny yn gymwys, neu fod plentyn cymwys arall heb gael taliad, mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i addasu swm y pensiynau fel sy'n ofynnol o ran y ffeithiau fel y maent yn ymddangos wedyn. Gellir gwneud yr addasiadau am yn ôl. [Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rheolwr y cynllun i adfer taliad o dan unrhyw ddarpariaeth arall lle mae rheolwr y cynllun yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.) [Rheoliad 102(2) a (3)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |

| |
|---|
| **Cais i dderbyn taliad trosglwyddo (Rheoliad 141). Mae hyn yn berthnasol i bob cynllun.** |
| Mae terfyn amser o flwyddyn rhwng dod yn aelod gweithredol a gwneud cais i drosglwyddo taliad o gynllun pensiwn analwedigaethol. Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i ymestyn y cyfnod hwn. [Rheoliad 141(3)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod i ystyried ymestyn y terfyn amser ar gyfer trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i fwy na deuddeg mis ar ôl ymuno, oni bai:<br><br>(i) bod yr aelod o'r cynllun wedi gofyn i ymchwiliadau ddechrau cyn pen y terfyn o ddeuddeg mis, neu<br><br>(ii) bod rheswm i gredu na fyddai'r unigolyn fod wedi gwybod bod angen gofyn am ymchwiliad i drosglwyddiad posibl i mewn neu hawliau pensiwn blaenorol o fewn y terfyn amser o ddeuddeg mis, a bod ffeiliau Adnoddau Dynol a/neu bensiwn yn cefnogi hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd cyfnod hirach o amser yn cael ei ganiatáu oni bai fod rheswm hysbys neu siawns y bydd gan y gweithiwr fynediad at ei hawliau pensiwn o fewn y 12 mis nesaf. |
| **Rôl Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol mewn penderfyniadau gan reolwr y cynllun (Rheoliad 152)** |
| Rhaid i reolwr y cynllun ddewis Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol i ddarparu barn ysgrifenedig am faterion meddygol na ellir eu penderfynu ond drwy roi sylw i farn o'r fath. [Rheoliad 152(1)]<br><br>Os yw person yn fwriadol neu drwy esgeulustod yn methu â chyflwyno archwiliad meddygol gan yr Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol a ddewiswyd, a bod yr Ymarferwr hwnnw yn methu â rhoi barn ar sail y dystiolaeth feddygol sydd ar gael, gall rheolwr y cynllun wneud y penderfyniad ar sail tystiolaeth feddygol sy'n addas yn eu barn nhw, neu heb dystiolaeth feddygol. [Rheoliad 152(7)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |

| **Rhybudd apêl (Rheoliad 155)** |
|---|
| Os yw aelod yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad, a bod ei gŵyn yn ymwneud â'r farn feddygol y gwnaed y penderfyniad yn seiliedig arni, gall apelio i fwrdd o ddyfarnwyr meddygol. Rhaid gwneud yr apêl cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad pryd mae'r aelod yn cael y dogfennau perthnasol o dan Reoliad 154(4). Os na wneir yr apêl o fewn y terfyn amser hwn, a bod rheolwr y cynllun o'r farn ac nad oherwydd methiant y person ei hun y mae'r person wedi peidio â rhoi rhybudd o fewn y cyfnod gofynnol, mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser am gyfnod y mae rheolwr y cynllun yn ei ystyried yn briodol, ond nid mwy na chwe mis ar ôl y dyddiad pryd darparwyd dogfennau Rheoliad 154(4). [Rheoliad 155(2)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| **Taliadau'n ddyledus mewn perthynas â phersonau sydd wedi marw (Rheoliad 169)** |
| Os, pan fydd person yn marw, na fydd y cyfanswm sy'n ddyledus i gynrychiolwyr personol y person hwnnw dan y cynllun (gan gynnwys unrhyw beth sy'n ddyledus pan fydd y person yn marw) yn uwch na'r terfyn a nodir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bychain) 1965, gall rheolwr y cynllun dalu'r cyfan neu rhan o'r swm sy'n ddyledus i'r cynrychiolwyr personol neu unrhyw berson neu bersonau sy'n ymddangos i reolwr y cynllun â hawl i'r ystâd, heb orfod cyflwyno grant profiant neu lythyrau gweinyddu. [Rheoliad 169]<br><br>**Argymhelliad**<br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| **Talu ffi lwfans oes ar ran aelodau (Rheoliad 178)** |
| Ar gais aelod o'r cynllun, caiff rheolwr y cynllun, ar ran yr aelod, dalu unrhyw swm sy'n daladwy drwy ffi lwfans oes o dan adran 214 o Ddeddf Cyllid 2004. Caiff rheolwr y cynllun gydymffurfio â'r cais dim ond os yw'r aelod yn talu'r swm dan sylw ar neu cyn y dyddiad pryd y bu'r digwyddiad neu pryd mae'r aelod yn awdurdodi didynnu swm o gyfandaliad sy'n dod yn ddyledus i'r aelod dan y cynllun ar yr un pryd ag y bu'r digwyddiad. [Rheoliad 178]<br><br>**Argymhelliad**<br>Bydd y Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, yn gwneud penderfyniad fesul achos. |

| |
|---|
| **Taliadau rheolaidd yn ystod cyfnodau o gyflog pensiynadwy rhagdybiedig (Atodlen 1 Rhan 2, Paragraff 10)** |
| Ar ôl cyfnod o gyflog pensiynadwy rhagdybiedig neu gyfnod o gyflog is, caiff yr aelod roi rhybudd ysgrifenedig i reolwr y cynllun yn awdurdodi'r cyflogwr i didynnu cyfanswm y taliadau – a fyddai wedi cael eu gwneud petai ond am yr absenoldeb – o gyflog yr aelod yn ystod y cyfnod o chwe mis ar ôl diwedd cyfnod y cyflog is. Gall rheolwr y cynllun ymestyn y cyfnod hwn o chwe mis. [Atodlen 1 Rhan 2, Paragraff 10(4)]<br><br>**Argymhelliad**<br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| **Mae Rhan B (2) yn berthnasol i bob diffoddwr tân sy'n aelod o 'Reoliadau 2007 neu 1992 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)'.** |
| **Tâl Dros Dro FPS (1992)** |
| Penderfynu a yw'r gwahaniaeth rhwng cyflog sylfaenol diffoddwyr tân yn eu swydd bob dydd ac unrhyw dâl y maent yn ei gael ar ddyrchafiad dros dro neu pryd mae angen iddynt wneud dyletswyddau swydd uwch dros dro, i fod i gael ei drin fel cyflog pensiynadwy o dan drefniadau Budd Pensiwn Ychwanegol.<br><br>**Argymhelliad**<br>Mae Dyrchafiad Dros Dro i fod i gael ei drin dan drefniadau Budd Pensiwn Ychwanegol (oni bai fod y cyfnod yn bodloni'r meini prawf diogelu o dan Orchymyn y Cynllun Gorffennaf 2013). |
| **Lwfansau FPS (1992) a (2007)** |
| Penderfynu a yw unrhyw lwfans neu atodiad i wobrwyo sgiliau a chyfrifoldebau ychwanegol sy'n cael ei defnyddio a'u cynnal y tu hwnt i ofynion dyletswyddau diffoddwr tân o dan y contract cyflogaeth, ond sydd o fewn swyddogaethau ehangach y swydd, i fod i gael eu trin fel cyflog pensiynadwy o dan y trefniant Budd Pensiwn Ychwanegol.<br><br>**Argymhelliad**<br>Argymhellir ystyried bob lwfans neu atodiad fesul achos. |

| |
|---|
| **FPS (1992) Rheol K4 Tynnu pensiwn tra'n gyflogedig gan awdurdod tân ac achub (lleihad)** |
| Diwygio cynllun 1992 i ehangu disgresiwn y cyflogwyr i leihau pensiwn sy'n cael ei dalu i aelod sy'n cael ei ailgyflogi mewn unrhyw swydd yn unrhyw awdurdod tân ac achub; a'i gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr sy'n talu'r pensiwn dalu, i'r gronfa bensiwn, swm y pensiwn sy'n cael ei dalu ac a allai fod yn destun lleihad dan reolau'r cynllun. Byddai'r gofyniad, i'r cyflogwr fod yn atebol am y costau pan nad ydynt yn arfer y disgresiwn i leihau pensiwn aelod, yn berthnasol i gynllun 1992 ac i gynllun 2007.<br><br>Mae Gorchymyn Diwygio 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr ad-dalu'r cynllun pensiwn mewn achos pryd nad ydynt yn arfer y disgresiwn i leihau pensiwn aelod pan fydd yn cael ei ailgyflogi.<br><br>**Argymhelliad**<br>Argymhellir mabwysiadu'r disgresiwn. Bydd lleihau pensiwn, ar sail £ am £, yn berthnasol pan fo'r enillion, yn ogystal â thaliadau pensiwn, yn y swydd newydd yn fwy na'r enillion yn y swydd flaenorol. |
| **FPS 1992 (A) Rheol B7 (5a) Cynyddu'r terfyn cymudo** |
| Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i gyflogwr fod yn gallu caniatáu i aelodau cynllun 1992, sydd â llai na 30 mlynedd o wasanaeth ac sydd o dan 55 mlwydd oed, gymudo uchafswm o chwarter eu pensiwn am gyfandaliad pan fyddant yn ymddeol. O dan y ddarpariaeth newydd, byddai'r cyflogwr yn atebol am unrhyw gost ychwanegol a allai fod yn sylweddol os ydynt yn arfer y disgresiwn hwn. Byddai angen achos busnes llawn yn dangos bod ei swyddogaethau'n cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithiol, ynghyd â'r costau cysylltiedig.<br><br>**Argymhelliad**<br>Argymhellir mabwysiadu'r disgresiwn, ond bydd cynigon unigol yn cael eu harchwilio fesul achos, yn dibynnu ar anghenion y Gwasanaeth a gyda chaniatâd y Prif Swyddog Tân ar ôl cael cyngor y Trysorydd. |
| **FPS 1992 Ad-dalu pensiwn Gweddw C9** |
| Dan Gynllun 1992, nid yw person sydd â hawl i bensiwn gweddw ac sy'n priodi, yn ailbriodi, yn ffurfio partneriaeth sifil neu bartneriaeth sifil dilynol, yn meddu ar hawl i gael unrhyw daliad ar gyfrif y pensiwn o ran unrhyw gyfnod dilynol; ond os bydd y briodas neu'r bartneriaeth sifil yn cael ei diddymu neu os yw'r parti arall yn marw, caiff yr awdurdod tân ac achub dalu'r cyfan neu unrhyw ran o'r pensiwn am gyfnod o'r fath ar ôl y diddymiad neu'r farwolaeth ag sy'n rhesymol yn eu barn nhw.<br><br>**Argymhelliad**<br>Bydd ATAGC yn penderfynu fesul achos a fydd yn adfer pensiwn gweddw pan fydd y gŵr / gwraig / partner sifil diweddarach yn marw neu pan fydd y briodas / partneriaeth sifil ddiweddarach honno yn cael ei diddymu. |